Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

Goleuo'r gorffennol i wneud y dyfodol yn fwy diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru

CEFNDIR

Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

CANLLAWIAU STATUDOL ADUU

- Mae'r tîm ADUU wedi derbyn sylwadau pellach ynghylch y Canllawiau Statudol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn awr ac mae diwygiadau priodol yn cael eu gwneud.
- Cyflwynir fersiwn drafft terfynol y canllawiau i'r Grŵp Llywio ADUU ar gyfer cymeradwyaeth cyn ymgynghoriad ffurfiol Llywodraeth Cymru.

CYNNYDD

- Bydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau y bydd rhanddeiliaid allweddol dal yn medru ymgysylltu â'r broses ddatblygu ADUU a thu hwnt i weithredu.
- Mae rhanddeiliaid allweddol wedi rhoi adborth i'r tîm ADUU ynghylch y Canllawiau Statudol. Mae hwn yn cael ei adolygu ac mae diwygiadau'n cael eu gwneud gan y tîm ADUU. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn i ymgynghoriad ffurfiol Llywodraeth Cymru gychwyn.
- Rhennir gwybodaeth bellach ynghylch yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol cyn hir.



YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Bu Grŵp Cyflenwi Ystorfa Ddiogelu Cymru'n trafod cynllun trawsnewid a'r templed Adrodd ADUU.
- Mae trafodaethau wedi'u cynnal o gwmpas defnyddio'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i brofi'r Ystorfa. Cysylltwch os hoffech fod yn rhan o'r profi hwn.

DYSGU A HYFFORDDI

- Mae gwaith yn parhau er mwyn cynllunio camau nesaf datblygu'r deunydd Hyfforddi ADUU.

MATERION CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

- Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn wedi cyflwyno sylwadau pellach ynghylch y Canllawiau Statudol ADUU.
- Mae'r adborth hwn yn cael ei adolygu yn awr gan y tîm ADUU.

DYNLADDIAD IECHYD MEDDWL

- Mae'r grŵp hwn wedi adolygu templed Cylch Gorchwyl yr ADUU a rhoi adborth arno.

DYNLADDIAD ARFAU BYGYTHIOL

- Mae'r grŵp hwn wedi creu rhestr o gwestiynau cyffredin a fydd yn helpu i esbonio'r proses Adolygiad Arfau Bygythiol i ymarferwyr.

POLISÏAU A PHROSESAU

- Mae drafft terfynol y templed Adrodd ADUU wrthi'n cael ei ddatblygu. Y mae wedi'i gynhyrchu ar y cyd â thîm Ystorfa Ddiogelu Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.